Thank you for telling us what you think through 'Adopter Voice'.

**We started this scheme so we had an ongoing way of keeping in touch with what matters to adopters. Your feedback is being reported to Adoption teams/services and their management boards across Wales as well as to the National Adoption Service Advisory Group and Governance Board.**

**We will continue to do other things like hold groups and events as well as involving you in improving the services. This update is to let you know what is happening about the things raised through Adopter Voice in 2017/18.**

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

Achieving More Together / Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd

# Listening to you


Phil Hodgson


Suzanne Griffiths


Cllr Geraint Hopkins

| What you said | What we're doing |
|---|---|
| **RECRUITMENT** is generally quick and easy but in a small number of cases the following was noted:<br>• Poor communication particularly about timescales<br>• Changes of social workers<br>• Documents not being properly prepared | We encourage adoption teams to use the best practice model of agreeing a contract with adopters at the start of an assessment so everyone is clear about timeframes etc.<br>We've been lobbying the Welsh Government to introduce a two stage process for recruitment and assessment. This is due out for consultation and, if agreed, will clarify expectations and timeframes.<br>We've reported back to adoption teams the impact that poorly prepared documentation can have and asked them to look at this.<br>Adoption teams are aware of the impact that changes of staff has; they are committed to minimising this where they can. |
| **PREPARATION TRAINING** is generally OK and effective as well as being a good opportunity to meet other adopters. Some suggestions were made namely:<br>• Improve the content of preparation training | We plan to review the pre-approval preparation training.<br>This year we will take your comments into account and involve you in this. |
| **MATCHING AND PLACEMENT** was reported to be well managed although the following were highlighted:<br>• It sometimes feels a bit 'transactional' with the emotional side neglected<br>• Sometimes the detailed planning doesn't go well | We focused on transitions for children in our last staff conference promoting best practice.<br>We plan to share the good practice on transition highlighted by one of our regions and the Adopting Together scheme. |
| **POST-ADOPTION TRAINING AND SUPPORT** was thought to be poor in particular:<br>• Support falling away<br>• Poor post-placement courses held at inconvenient times<br>• Inconsistent financial support<br>• Quality, availability and evaluation of therapy | We've developed a framework to improve adoption support and are changing things bit by bit. Adoption services are providing more adoption support than they used to.<br>• All new adopters get a 1 year membership of Adoption UK free if they want it<br>• We've made more information and advice available, including support groups<br>• Some adoption team staff are now trained in therapeutic interventions<br>• Our website now has information about adoption support on it<br>• In most parts of Wales the regional adoption service is now the place to get help<br>Adoption UK have launched their *First 1,000 Days* project to support families through the early days of their adoption journey.<br>We've introduced an All Wales Policy for Financial Allowances. It has to comply with the law which allows for local discretion but things should start to become more standardised.<br>We've developed a post-approval training programme, with more detailed information and courses. We are planning to bring this into use this year.<br>We recognise there's lots more to do and we have an ongoing plan that includes trying to change the legal framework and securing more resources. |



**We'll continue to listen to what you tell us**
**Thank you for helping us to understand your views**

**029 2087 3927**

Diolch am ddweud eich barn wrthym drwy 'Llais y Mabwysiadwr'.

**Fe ddechreuom y cynllun hwn fel bod gennym ffordd barhaus o glywed yr hyn sy'n bwysig i fabwysiadwyr. Mae eich adborth yn cael ei adrodd i Dimau/Gwasanaethau Mabwysiadu a'u byrddau rheoli ledled Cymru yn ogystal â Grŵp Cynghori a Bwrdd Llywodraethu Cenedlaethol y Gwasanaeth Mabwysiadu.**

**Byddwn yn parhau i wneud pethau eraill fel cynnal grwpiau a digwyddiadau yn ogystal â'ch cynnwys mewn camau i wella'r gwasanaethau. Diben y diweddariad hwn yw rhoi gwybod ichi beth sy'n digwydd am y pethau a godwyd trwy Lais y Mabwysiadwr yn 2017/18.**

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

**Achieving More Together / Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd**

# Gwrando arnoch chi



Phil Hodgson



Suzanne Griffiths



Cllr Geraint Hopkins

## Yr hyn a ddywedoch

Yn gyffredinol, mae'r **RECRIWTIO** yn gyflym ac yn hawdd ond mewn nifer fechan o achosion, nodwyd y canlynol:

- Cyfathrebu gwael yn enwedig ynghylch graddfeydd amser
- Newidiadau o ran gweithwyr cymdeithasol
- Diffyg paratoi dogfennau'n iawn

## Yr hyn yr ydym yn ei wneud

Rydym yn annog timau mabwysiadu i ddefnyddio'r model arfer gorau o gytuno ar gontract gyda mabwysiadwyr ar ddechrau asesiad fel bod pawb yn deall amserlenni ac ati.

Rydym wedi bod yn lobïo Llywodraeth Cymru i gyflwyno proses dau gam ar gyfer recriwtio ac asesu. Mae ymgynghoriad ar fin cychwyn, os cytunir arno, bydd yn egluro disgwyliadau ac amserlenni.

Rydym wedi adrodd yn ôl i dimau mabwysiadu ynghylch effaith dogfennau sy'n cael eu paratoi yn wael, a gofynnwyd iddynt edrych ar hyn. Mae timau mabwysiadu yn ymwybodol o effaith newid staff; maent wedi ymrwymo i leihau cymaint ag y medrant ar hyn.

---

Mae **HYFFORDDIANT PARATOI** yn gyffredinol, yn iawn ac yn effeithiol ac mae'n gyfle da i gwrdd ag eraill sy'n mabwysiadu. Gwnaed rhai awgrymiadau, sef:

- Gwella cynnwys yr hyfforddiant paratoi

Rydym yn bwriadu adolygu'r hyfforddiant paratoi cyn-cymeradwyo. Eleni byddwn yn ystyried eich sylwadau ac yn eich cynnwys yn hyn.

---

**CYDWEDDU A LLEOLI** adroddwyd bod hyn yn cael ei rheoli'n dda, er, amlygwyd y canlynol:

- Mae weithiau'n teimlo'n 'drafodaethol' ac yn esgeuluso'r ochr emosiynol
- Weithiau nid yw'r cynllunio manwl yn mynd yn dda

Fe wnaethom ganolbwyntio ar drawsnewidiadau i blant yn ein cynhadledd staff diwethaf gan hyrwyddo arfer gorau.

Rydym yn bwriadu rhannu'r arfer da ar drawsnewid a amlygwyd gan un o'n rhanbarthau a'r cynllun Mabwysiadu Gyda'n Gilydd.

---

Ystyriwyd bod **HYFFORDDIANT A CHEFNOGAETH AR ÔL MABWYSIADU** yn wael, yn arbennig:

- Cefnogaeth yn lleihau
- Cyrsiau ôl-leoli gwael yn cael eu cynnal ar adegau anghyfleus
- Cymorth ariannol anghyson
- Ansawdd, argaeledd a gwerthuso'r therapi



Rydym wedi datblygu fframwaith i wella cymorth mabwysiadu ac rydym yn newid pethau'n raddol. Mae gwasanaethau mabwysiadu yn darparu mwy o gymorth mabwysiadu nag oeddent arfer ei wneud.

- Mae pob mabwysiadwr newydd yn cael aelodaeth blwyddyn am ddim gydag Adoption UK os ydynt yn dymuno
- Rydym wedi sicrhau bod mwy o wybodaeth a chyngor ar gael, yn cynnwys grwpiau cymorth
- Mae rhai aelodau staff y tîm mabwysiadu bellach wedi'u hyfforddi mewn ymyriadau therapiwtig
- Erbyn hyn, mae ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth am gymorth mabwysiadu
- Yn y rhan helaeth o Gymru y gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol yw'r lle i gael cymorth erbyn hyn

Mae Adoption UK wedi lansio eu prosiect *1,000 Diwrnod Cyntaf* i ddarparu cefnogaeth i deuluoedd trwy ddyddiau cynnar eu taith mabwysiadu.

Rydym wedi cyflwyno Polisi Cymru Gyfan ar gyfer Lwfansau Ariannol. Mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r gyfraith sy'n caniatáu disgresiwn lleol ond dylai pethau ddechrau dod yn fwy safonol.

Rydym wedi datblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer y rheini sydd wedi cael eu cymeradwyo, a hynny i gynnwys gwybodaeth a chyrsiau mwy manwl. Rydym yn bwriadu ei defnyddio eleni.

Rydym yn cydnabod bod llawer mwy i'w wneud ac mae gennym gynllun parhaus sy'n cynnwys ceisio newid y fframwaith cyfreithiol a sicrhau mwy o adnoddau.

**Byddwn yn parhau i wrando ar yr hyn rydych chi'n ei ddweud wrthym. Diolch am ein helpu i ddeall eich barn**

**029 2087 3927**